# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Eithinog**

**Cartref Eithinog Leonard Cheshire**
**Yr Hen Briffordd**
**Bae Colwyn**
**LL28 5YA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Eithinog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Mai 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Nid yw'r systemau sydd ar waith i fonitro, adolygu a gwella'r gwasanaeth yn gadarn ac, felly, gwelsom fod methiannau systemig sylweddol o ran goruchwylio systemau arweinyddiaeth a rheolaeth y cartref. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer hyfforddi a goruchwylio'r staff. Mae'r broses recriwtio staff yn ddiogel. Caiff archwiliadau mewnol a gwiriadau diogelwch amgylcheddol eu cynnal bob mis; fodd bynnag, nid ydynt wedi nodi'r methiannau a welwyd yn ystod yr arolygiad hwn. Mae angen gwella rhai agweddau ar yr amgylchedd, fel ystafelloedd gwely a choridorau a'r trefniadau ar gyfer storio cyfarpar codi.

Mae'r cynlluniau personol a dogfennau gofal cysylltiedig yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn fanwl iawn, ond nid yw'r staff yn dilyn y driniaeth a ragnodwyd bob amser. Caiff pobl eu hatgyfeirio at weithwyr proffesiynol pan fo angen. Mae'r dyraniad staff a'r oruchwyliaeth glinigol yn annigonol i ddiwallu anghenion y bobl yn y cartref mewn modd diogel ac amserol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio llawer iawn o staff asiantaeth nad ydynt bob amser yn adnabod y preswylwyr. Mae angen gwelliannau i sicrhau bod yr amgylchedd yn gartrefol, yn dawel a bod dymuniadau'r bobl yn cael eu parchu. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelu.
Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer storio gwybodaeth gyfrinachol.

## Llesiant

Nid oes bob amser gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gall y bobl leisio eu barn yn ystod cyfarfodydd i breswylwyr, ond nid yw'r cyfarfodydd hyn yn gyson. Mae ystod o gyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, ond gwelsom achlysuron lle roedd eitemau fel posau wedi cael eu gosod y tu hwnt i gyrraedd yr unigolyn. Ceir bwydlen â dewis da, a dywedodd y bobl eu bod yn mwynhau'r bwyd a gynigir. Gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser, mewn ardaloedd cymunedol neu yn eu hystafelloedd gwely eu hunain. Gwelsom fod drws bron pob ystafell wely yn cael ei adael ar agor, sy'n golygu nad yw preifatrwydd, diogelwch nac urddas y bobl yn cael eu parchu. Clywsom am sawl achos lle roedd staff yn cyfeirio at y bobl yn ôl rhif eu hystafell ac yn ymgasglu yn y coridorau y tu allan i ystafelloedd y bobl i gael trafodaethau uchel. Clywsom un aelod o'r staff yn trafod cyflwr iechyd unigolyn mewn coridor fel y gallai pawb glywed.

Nid yw anghenion corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl yn cael eu diwallu bob amser.
Roedd un unigolyn yn dangos arwyddion o ofid, ond nid ymatebodd y staff yn rhagweithiol i roi tawelwch meddwl iddo a chynnig therapi dargyfeirio. Gwelsom ofal yn cael ei roi yn yr ystafell weithgareddau ac nid oedd yr un aelod o'r staff yn bresennol yn yr ardal hon am bymtheg munud, er bod nifer o'r bobl yn wynebu risg o dagu. Pan oedd aelodau o'r staff yn bresennol yn yr ardal hon, gwelsom mai prin oedd y rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl, heblaw pan oedd angen cyflawni tasg â nhw.

Nid yw'r bobl bob amser yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel a chaiff y gwiriadau angenrheidiol eu cynnal. Mae sawl aelod o staff wedi gadael dros y misoedd diwethaf, a gwneir cryn ddefnydd o staff asiantaeth nad ydynt yn ymwybodol o anghenion y bobl bob amser. Mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer hyfforddi a goruchwylio'r staff.  Nid yw pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau na hyfforddiant ar iechyd a diogelwch.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac nad yw'n ddiogel. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd o bump (sy'n dangos bod arferion hylendid y gegin yn ‘dda’). Mae gan y cartref staff cadw tŷ dynodedig er mwyn sicrhau y caiff glendid y cartref ei gynnal, ond gwelsom nifer o ardaloedd yr oedd angen eu glanhau'n drylwyr fel yr ystafell fwyta a'r tu ôl i ddrysau. Nid yw gwybodaeth gyfrinachol y bobl yn ddiogel bob amser oherwydd gwelsom lawer o ffeiliau gofal yn y coridorau. Caiff cadeiriau olwyn a chyfarpar codi eu storio yn y coridorau a'r ystafelloedd ymolchi. Caiff drysau cypyrddau glanhau ac ardaloedd storio clinigol eu gadael heb eu cloi. Mae angen rhoi sylw brys i un ystafell wely gan ei bod yn achosi perygl i ddiogelwch, ac roedd arogl annymunol yn rhai o'r ystafelloedd gwely.

## Gofal a Chymorth

Ni all y bobl fod yn sicr y byddant yn cael y gofal a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir. Gwelsom gynlluniau personol a oedd yn cynnwys cryn dipyn o fanylion am ddewis arferion, hoff bethau a chas bethau'r bobl. Cadarnhaodd yr Unigolyn Cyfrifol fod y staff yn cael staff amser gwarchodedig er mwyn iddynt allu darllen cynlluniau personol ac asesiadau risg. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi rhoi'r gofal a ragnodwyd ar waith. Nodwyd un achos lle nad ymatebodd y staff pan oedd angen cymorth ar unigolyn gyda'i safle er mwyn ei atal rhag tagu, ac achos arall lle methodd y staff â goruchwylio'r bobl yn yr ystafell weithgareddau.

Nid yw'r bobl yn cael gofal priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bob amser. Nid oedd y staff bob amser yn rhyngweithio â'r bobl wrth eu helpu i fwyta. Roedd enghreifftiau lle nad oedd y staff bob amser yn siarad â'r bobl wrth eistedd gyda nhw a lle roedd aelod o'r staff yn sefyll dros yr unigolyn roedd yn ei helpu, yn hytrach nag eistedd gydag ef. Gwelsom sawl achlysur lle roedd yr amgylchedd yn y prif adeilad yn anhrefnus ac yn swnllyd, a sawl enghraifft lle roedd y staff yn cyfeirio at y bobl yn ôl rhif eu hystafell. Mae tri pherson wedi cwyno o'r blaen am staff yn ymgynnull yn y coridorau a lefel y sŵn. Mae eu cwynion wedi cael eu hanwybyddu oherwydd clywsom am sawl achos lle roedd staff wedi ymgasglu y tu allan i ystafelloedd y bobl. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r bobl bob amser yn ddiogel rhag y risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Cafodd y polisi diogelu ei adolygu ddiwethaf ym mis Mehefin 2021 ac nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod am yr ap diogelu na sut i gysylltu â'r awdurdodau diogelu. Gwnaethom hefyd nodi dau achlysur lle nad oedd y tîm diogelu wedi cael gwybod am achosion o gam-drin. Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r hyfforddiant diogelu diweddaraf. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid oedd anghenion cyfathrebu'r bobl yn cael eu diwallu. Caiff anghenion cyfathrebu eu hasesu a chynllunnir ar eu cyfer; fodd bynnag, nid yw'r staff yn ymwybodol o anghenion cyfathrebu penodol y bobl wrth eu cefnogi. Roedd hyn yn golygu efallai na fyddai'r unigolyn wedi gallu cyfathrebu'n effeithiol. Roedd angen gwneud addasiadau er mwyn helpu dau unigolyn i gyfathrebu. Ni welsom hyn yn cael ei wneud. Gwnaethom siarad â phreswylydd arall a allai ddeall yn llwyr yr hyn oedd yn cael ei ddweud ond na allai gyfathrebu ag eraill gan mai geirfa gyfyngedig oedd ganddo, fel “ie a na”. Gwnaethom ofyn a oedd y gwasanaeth wedi ceisio creu adnodd cyfathrebu er mwyn iddo allu cyfathrebu, ac ymatebodd drwy ddweud “Na” gan fynegi rhwystredigaeth. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Ni all y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Ni ofynnwyd i ni brofi pwy oeddem cyn mynd i mewn i'r gwasanaeth. Ni chaiff holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002. Ni chaiff silindrau ocsigen eu storio'n ddiogel ac nid oes arwyddion i ddangos bod y rhain yn cael storio yn y cwpwrdd. Ceir nifer o gadeiriau olwyn arbenigol yn y coridorau, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn i symud o gwmpas yn ddiogel. Mae hyn yn peri risg i iechyd a diogelwch y bobl, ac felly mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r bobl yn byw mewn amgylchedd sydd bob amser yn codi calon, yn lân ac yn gartrefol.  Mae rhai ardaloedd o'r amgylchedd yn y prif adeilad yn glinigol, fel y coridorau a'r ystafell fwyta ac nid ydynt yn cyfrannu at lesiant y bobl. Caiff ardaloedd traffig uchel eu glanhau, heblaw y tu ôl i ddrysau a'r arwynebau gwaith a'r teils, ac roedd tolciau yn yr arwynebau gwaith yn yr ystafell fwyta. Mae angen adnewyddu rhai o'r ystafelloedd gwely gan fod y dodrefn yn hen, wedi'i ddifrodi ac yn annymunol. Gwelsom sawl ardal yr oedd angen ei hatgyweirio a'i hailaddurno ar frys. Roedd arogl annymunol mewn pedair ystafell wely. Gwnaethom ofyn am gynllun adnewyddu ac nid yw hwn wedi dod i law hyd yma. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ni all y bobl fod yn hyderus y bydd eu cofnodion yn cael eu trin yn gyfrinachol. Gwelsom gofnodion gofal pobl yn cael eu storio mewn ardaloedd cymunedol, sy'n peri risg i ddiogelwch data. Roedd nifer o ffeiliau gofal yn y coridorau yn y prif adeilad ac ar gefn cadeiriau'r bobl. Roedd y staff wedi cofnodi pwy oedd wedi cael ei olchi a phwy oedd wedi cael brecwast ar napcyn yn yr ystafell fwyta. Gwelsom fod cofnod ysgarthu preswylydd wedi'i adael ar y troli yn y prif goridor a rhestr o driniaethau hydrotherapi a oedd yn cynnwys blaenlythrennau a rhifau ystafelloedd preswylwyr gwahanol ar wal ystafell wely un o'r preswylwyr. Gwnaethom drafod y mater yn ymwneud â staff yn gadael gwybodaeth gyfrinachol mewn ardaloedd cymunedol yn y cartref ac yn amharchu preifatrwydd ac urddas y bobl â'r Unigolyn Cyfrifol, a chymerwyd camau ar unwaith ar y diwrnod, ond mae'n amlwg bod hyn yn arfer reolaidd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Gall y bobl fod yn hyderus bod ardystiad priodol ar waith mewn perthynas â chyfleusterau a phrofi cyfarpar. Caiff profion ar ddyfeisiau nwy a dyfeisiau cludadwy a gwiriadau diogelwch sy'n gysylltiedig â thân eu cynnal, ac mae gan y bobl gynllun personol cyfredol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae'r asesiad risg tân wedi'i adolygu yn ddiweddar. Mae'r

Dystysgrif Diogelwch Trydanol bum mlynedd yn gyfredol. Caiff gweithrediadau codi a chyfarpar codi eu harchwilio yn unol â'r Rheoliadau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ni all y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth fod yn hyderus y caiff y cartref ei reoli'n dda er mwyn diogelu a hybu eu llesiant. Mae'r rheolwr a'r nyrs arwain clinigol yn absennol o'r gwasanaeth. Mae'r bwlch hwn yn cael ei lenwi gan y rheolwr gweithrediadau a'r rheolwr gweithrediadau clinigol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Yn ystod yr arolygiad, roedd yr holl reolwyr yn y swyddfa, ac roedd y drws wedi'i gau. Gwelsom nad oedd y trefniadau a oedd ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth yn gadarn. Nid yw'r materion hyn a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn wedi'u nodi yn yr adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis nac yn adroddiad yr Unigolyn Cyfrifol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ceir anghenion gofal dibyniaeth uchel ac nid yw'r dyraniad staff yn sicrhau y caiff gofal ei ddarparu yn unol â chynlluniau personol. Gwelsom sawl achos lle roedd diffyg arweiniad i'r staff ac felly, nid oedd y bobl yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n briodol bob amser. Mae'r staff yn rhoi gofal mewn ffordd sy'n seiliedig ar dasgau. Roeddent yn cael eu rhuthro ac yn brysur iawn yn rhoi sylw i bobl wahanol; o ganlyniad, roedd y gofal yn cael ei ruthro ac yn sefydliadol ei natur, ac nid oedd yn cynnal urddas y bobl. Mae'r trosiant staff yn uchel ac er bod gwaith recriwtio'n mynd rhagddo, mae'r gwasanaeth yn defnyddio canran uchel o staff asiantaeth yn rheolaidd. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym ei fod yn ceisio darparu staff asiantaeth rheolaidd fel eu bod yn adnabyddus i'r bobl ac yn gyfarwydd â'u hanghenion. Mae'r amseroedd ymateb i glychau galw yn dangos na chafodd nifer o glychau galw eu hateb mewn modd amserol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ni all y bobl fod yn hyderus fod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant a fydd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol iddynt gyflawni eu rolau gofal yn effeithiol. Mae datganiad o ddiben y cartref ei hun yn nodi '*Staff are part of a comprehensive training programme which includes induction, mandatory and specialist training are required'.* Roedd y cofnodion yn dangos nad oedd hyfforddiant staff yn gyfredol ac nad oedd sawl aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant a oedd yn gysylltiedig ag anghenion y bobl a oedd yn byw yn y cartref. Roedd ffeil yr asiantaeth yn dangos bod aelod o'r staff wedi cwblhau 11 modiwl hyfforddiant mewn un diwrnod. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y darparwr wedi cwestiynu'r asiantaeth o ran cymhwysedd y staff a oedd yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth; felly, ni allai fod yn sicr bod y bobl yn y cartref yn cael gofal gan staff cymwys a medrus. Mae hyn

yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r arferion recriwtio yn cadw'r bobl yn ddiogel. Gwnaethom edrych ar y cofnodion recriwtio yn ffeiliau pedwar aelod o'r staff. Roedd pob un ohonynt yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi'u cwblhau cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Bydd pob aelod newydd o staff yn cwblhau rhaglen sefydlu ac yn destun cyfnod prawf. Mae'r staff presennol wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal i safon briodol er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n derbyn gofal. Nid yw rhai ardaloedd o'r amgylchedd yn lân, ac ni chaiff risgiau i iechyd a diogelwch eu lliniaru bob amser. | Newydd |
| 47 | Ni chaiff gwybodaeth bersonol y bobl ei storio'n ddiogel bob amser. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol nac arbenigol priodol ar gyfer y gwaith y disgwylir iddynt ei wneud. | Newydd |
| 24 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y staff yn gallu | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfathrebu'n effeithiol â'r bobl. | |
| 66 | Nid yw methiannau yn y gwasanaeth wedi cael eu nodi drwy archwiliadau'r gwasanaeth ei hun na thrwy ei adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal, ac mae hyn yn peri risg o niwed i'r bobl. | Newydd |
| 57 | Nid yw'r darparwr yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac nid yw wedi gwneud yn siŵr bod risgiau diangen i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi a'u dileu. | Newydd |
| 25 | Ni wrandewir ar y bobl ac ni chyfathrebir â nhw mewn ffordd gwrtais a pharchus bob amser mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chymorth. | Newydd |
| 34 | Nid oes digon o staff yn cael eu cyflogi yn y cartref i sicrhau diogelwch y preswylwyr. | Newydd |
| 26 | Nid oes gan y staff na'r Unigolyn Cyfrifol ddigon o wybodaeth ac nid ydynt yn cael eu goruchwylio'n ddigonol i ddiogelu'r bobl mewn modd cadarn. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 34 | Nid yw'r bobl bob amser yn gallu cyflawni eu canlyniadau personol gan nad oes digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu eu hanghenion. | Cyflawnwyd |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/08/2023